*ymgyrch* **CYMRU**

**Cylchlythyr Aelodau CND Cymru** Rhif 18 Tachwedd-Ionawr 1990/91 **20c**

# ANGEN AMSER I'R SANCSIYNAU WEITHIO

## 12 mis o sancsiynau yn well na 12 munud o ryfel

**Mae CND Cymru yn condemnio yn ddiamod meddiannu ac uno Kuwait gan luoedd Irac.**

Dylai milwyr Irac dynnu'n ôl a dylid ail sefydlu annibyniaeth Kuwait.

Mae CND Cymru yn cefnogi datganiad y Cenhedloedd Unedig ar sancsiynau economaidd mandadol ond nid y gwaharddiad ar fwyd a chymorth dyngarol.

Mae'n condemnio y cynnydd dianghenraid a pheryglus o luoedd America, Prydain a chenhedloedd eraill yn y Gwlff a'r gwerthiant arfau sydd yn parhau yn y rhanbarth.

Mae CND Cymru yn galw am gael gwared o'r rhanbarth bob arf all ddinistrio ar raddfa eang a mabwysiadu ar unwaith agweddau ac athrawiaethau sydd yn filwrol amddiffynol.

Creda CND Cymru y byddai rhwystro Irac rhag gwerthu olew — sydd yn gyfrifol am 95% o'i enillion — yn gwneud iddi dynnu yn ôl o Kuwait.

**Dylid rhoi amser i'r sancsiynau yma weithio; hyd yn oed pe bai yn cymryd 12 mis byddai hynny yn well na'r galanas y gallai gweithredu milwrol ei wneud mewn 12 munud.**

Bydd CND Cymru, sydd â hanes hir o wrthwynebu militariaeth, yn gwrthwynebu gweithredu milwrol trwy bob dull di-drais sydd ar gael.

Galwn ar bleidiau gwleidyddol Cymru a mudiadau eraill i ymuno â ni yn ein galwad am ateb di-drais i'r argyfwng yma.

*Datganiad CND Cymru: Hydref 1990.*



*Bob Cole, London, Sept 15th*
*Picture: Peter Burt*

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Bob Cole, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. (0766) 831356



"GAD LONYDD I MI! DIM OND WNEUD NHW DWI – 'DWI DDIM YN GYFRIFOL AM SUT MAE NHW'N CAEL EU DEFNYDDIO"

**TU MEWN**
ARGYFWNG Y GWLFF
DIWEDDARAF AR RADAR TŶ DDEWI
CYFAMOD GWAHARDD PROFION
CATALOG NADOLIG CND CYMRU

**CATALOGAU — DIGON O AMSER I ARCHEBU ANRHEGION A CHARDIAU NADOLIG CND CYMRU**

# ARGYFWNG Y GWLFF gan John Cox

**Mae goresgyniad Kuwait gan Iraq wedi cael ei gondemnio yn gyffredinol yn gwbl gyfiawn. Ni fu adwaith debyg i'r ymateb militaraidd. Oherwydd creulondeb annerbyniol y drefn yn Iraq a'r trais ddefnyddiwyd yn Kuwait, mae llawer wedi derbyn fod rhyfel yn anorfod.**

Dydw i ddim yn heddychwr ac rydw i wedi gwrthwynebu y drefn bresennol yn Iraq fyth er pan ddaeth gyntaf i rym gyda help yr Unol Daleithiau. Ond alla' i ddim cefnogi y gweithredu militaraidd presennol. Mae'n achosi dioddefaint a thrallod i filoedd o bobol diniwed yn barod — a hynny heb i'r un ergyd gael ei thanio. Ond pe deuai hi'n ryfel, fe fyddai'n gyflafan echrydus.

## EGWYDDORION

Dwi'n credu y dylai egwyddorion sy'n cael eu cydnabod yn fyd eang ddylanwadu ar ein hymateb ni i'r sefyllfa:

**Ddylai ffiniau gwledydd ddim cael eu newid gan rym milwrol — waeth pa mor anghyfiawn yw'r ffin na beth yw natur y drefn wleidyddol sy'n cael ei gwrthwynebu.**

**Mae amddiffyn eich hun yn iawn mewn argyfwng — ond ni ddylid defnyddio mwy o rym na sy' raid i atal yr ymosodiad a'i droi'n ôl.**

**Ddylai grym milwrol ddim cael ei ddefnyddio hyd nes i bob dull gwleidyddol a mesurau eraill di-drais fethu.**

**Mae gwaharddiadau a mesurau eraill anfilitaraidd yn gyfreithlon pan gant eu defnyddio yn erbyn y sawl sy' wedi ymosod.**

**Ni ddylid gwahardd cyflenwadau meddygol a bwyd dan unrhyw amgylchiadau.**

## MESURAU CYFIAWN

O ddefnyddio'r meini prawf yma wrth ystyried yr argyfwng presennol, mae'r gwaharddiad olew a rhewi asedau yn amlwg yn fesurau cyfiawn. Wrth gau y ddwy beipen olew ataliwyd 88% o refeniw Iraq a phan rewyd asedau eu cyfnewidfa dramor fe ddiddymwyd yn llwyr eu gallu i brynu. O gael digon o amser, mae rhagolygon go lew y gall mesurau o'r fath lwyddo a gorfodi Iraq i adael Kuwait.

Os na fyddan nhw'n ddigonol, fe fyddai'r rhan fwya' o'r refeniw sy'n weddill yn dod i ben pe tae llongau yn cael eu hatal rhag dadlwytho ar ben eu taith yn y porthladdoedd (Rotterdam, Tokyo etc.). Does dim angen lluoedd yn y Gwlff i weithredu'r un o'r mesurau yma.

Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae'r lluoedd rhyngwladol a lluoedd yr Unol Daleithiau yn cael eu defnyddio i wahardd bwyd, moddion ac angenrheidiau eraill rhag cyrraedd pobol yr Iorddonen a miloedd o ffoaduriaid. Pa bwysau bynnag mae hyn wedi ei roi ar Iraq, mae yn ddiamheuol hefyd wedi cynyddu'r dioddefaint ymysg pobol ddiniwed ac wedi codi gwrychyn llawer gan eu troi yn erbyn yr embargo.

## GWLEIDYDDOL

Os yw gwaharddiad yn effeithiol fe ddylen nhw wanhau llywodraeth yr ymosodwyr nid y rhai a ymosodwyd arnynt. Yn wleidyddol mae'r aflonyddu ar y fasnach rhwng Iraq a'r Iorddonen wedi bod yn wrth gynhyrchiol. Os bydd hynny'n parhau, Saddam Hussein fydd yn elwa. Fe fyddai'r broblem yn llai difrifol pe tae'r UDA yn cael eu dirnad fel gwladwriaeth sy'n gweithredu dros ddelfrydau dyngarol — yn erbyn gormes, o blaid democratiaeth etc. Yn ymarferol, mae eu gweithrediadau nhw yn tanlinellu eu safonau dwbwl.

Mae America yn cael ei dirmygu yn y byd Arabaidd oherwydd ei chefnogaeth i Israel sydd wedi dwyn tiroedd oddi wrth Syria a'r Iorddonen, a hefyd eu swcwr i arweinwyr unrhyw 'regime', pa mor farbaraidd bynnag, sy' â chydymdeimlad a buddiannau Americanaidd. 'Dyw eu haeriad o fod yn gweithredu ar sail foesol ddim yn cael ei ategu gan eu record, ac oherwydd hynny mae'r Iraciaid wedi codi yng ngolwg y Palestiniaid a rhai a ddioddefodd o ganlyniad i gefnogaeth yr UDA pan ymyrrwyd yn filwrol ar achlysuron eraill.

Mae perthynas newydd yr Unol Daleithiau a Syria, ar ôl blynyddoedd o gondemnio record Syria ynglŷn â iawnderau dynol a'r ffordd roedden nhw'n hyrwyddo terfysgaeth ryngwladol. Yn y gorffennol roedd yr UDA yn cefnogi'r bwystfil Saddam yn erbyn yr Ayatollah; rwan mae'n nhw'n cefnogi y bwystfil Assad yn erbyn y gwrth-Grist newydd. Pan fydd yr argyfwng yma drosodd, a fydd y Syriaid yn aros (fel y digwyddodd yn Lebanon) neu yn gadael Saudi Arabia?

## AMDDIFFYN

Mae'r rhai sy'n cefnogi ymateb militaraidd America yn haeru fod Saudi Arabia angen cymorth ynglŷn ag ymosodiad posibl o Iraq. Mewn gwirionedd mae gan Saudi yn barod fwy o arfau — pan ystyriwch chi faint y boblogaeth — ac yn gwbwl abl i amddiffyn ei hun. Gwir bwrpas yr ymyrraeth filitaraidd gan America ydi ad-feddiannu Kuwait gydag ymosodiad milwrol ar Iraq.

Fe fyddai gan ymosodiad o'r fath siawns dda o lwyddo ac fe ellid yn ôl pob tebyg ddisodli Saddam Hussein. Ond fe fyddai hefyd yn golygu tywallt gwaed a dioddefaint ofnadwy. Sydd wedyn yn arwain at y cwestiwn — pa fath o gyfundrefn fyddai yr UDA yn ei sefydlu yn lle Saddam? Ai 'regime' ffasgaidd — tebyg i'r un gynharach sefydlwyd yn Iraq gan y CIA sydd bellach yn cael ei chofleidio gan Syria? Ai rhyw drefn debyg i apartheid — sydd hefyd yn cael ei hargymell ar gyfer Kuwait a Saudi Arabia? Mae un peth yn sicr — nid democratiaeth fydd hi. Bydd unrhyw drefn a sefydlir gan y gweithredu militaraidd yma ddim blewyn yn wahanol i gyfundrefnau a sefydlwyd yn y gorffennol gan yr Unol Daleithiau.

## CYFLE

Os oes yna unrhyw ddaioni wedi deillio o'r argyfwng hyd yma, cydnabyddiaeth gyffredinol o'r achosion tu ôl i'r helynt ydi hynny; yn arbennig y fasnach arfau â gormeswyr Arabaidd, cefnogaeth unllygeidiog i Israel a diffyg consyrn efo sefyllfa y Palesteiniaid. Pe tae'r mudiad heddwch yn ymgyrchu yn fwy effeithiol ar faterion o'r fath, mae'n bosib y gellid sicrhau atebion fyddai'n para'n hirach.

Ond dyletswydd CND ar hyn o bryd yw ymgyrchu am ffordd heddychlon i ddatrus y broblem. Rydan ni'n cael ein paratoi i wynebu y bydd yna ryfel gan y wasg. Ein tasg ni ydi gwrthwynebu'r hysteria rhyfelgar.

Faint bynnag rydan ni'n casáu 'regime' Saddam a'u hymosodiad ar Kuwait, allwn ni ddim rhoi sêl bendith i gyflafan yn Iraq a Kuwait, a dyna fydd canlyniad anochel yr 'ateb' milwrol. Fel Gorbachov yn yr uwch-gynhadledd yn Helsinki yn ddiweddar, mae'n rhaid i ni fynnu gweithredu cadarn ac unol i drechu'r ymosodiad — ond mae'n rhaid i hwnnw fod yn weithredu *gwleidyddol*.

# RHYFEL YN Y GWLFF?

### CND LLANDRINDOD AR FLAEN Y GAD!

Yn dilyn galwad ffôn gan Ysgrifennydd CND Cymru, penderfynodd ein grŵp ni mai'r cam mwyaf effeithiol fyddai i ni fod yn bresennol yn y farchnad ar ddydd Gwener, Hydref 12fed.

Felly gosodwyd bwrdd a baner CND Llandrindod drosto a dangoswyd sloganau fel:

SAY NO TO AN OIL WAR!

12 MONTHS OF SANCTIONS IS BETTER THAN 12 MINUTES OF CARNAGE

THE GREED FOR OIL COULD CAUSE MASS HUMAN DESTRUCTION

CHEMICAL AND NUCLEAR WEAPONS ANNIHILATE. FOR WHAT CAUSE?

Rhannwyd taflenni a chafwyd llofnodion ar gardiau a thipyn go lew o sylw a thrafodaeth ar y pwnc.

Cawsom wybod o Lundain mai ni oedd y grŵp heddwch cyntaf ym Mhrydain i ddefnyddio'r taflenni newydd yma. Stroc i Landrindod a stroc i Gymru!

*Vera Jones, Ysgrifenyddes CND Llandrindod a'r Cylch.*

Mae grwpiau eraill wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus (Aberhonddu, Aberystwyth, Casnewydd a Bangor i enwi pedwar). Ydych chi wedi 'sgwennu i'ch papur lleol, aelod seneddol neu'r Prif Weinidog? Mae Abertawe wedi trefnu deiseb. A fedrwch chi ddefnyddio'r taflenni newydd o CND yn Llundain "No War in the Gulf" (£8 am 1,000)... ac yn olaf, ceisiwch ymuno â'r rali yn Llundain ar Dachwedd 24... mae rhai bysiau wedi'u trefnu o Gymru yn barod.

# PA OBAITH AM GYFAMOD NEWYDD?

Cychwynnodd Bruce Kent (Cadeirydd CND Prydain) ac eraill ar daith gerdded i Genefa ar ddiwrnod Hiroshima. Cyrhaeddwyd y Gynhadledd Adolygu Gwrthledaenu Arfau Niwcliar, ar yr 20 o Awst.

Roedd Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd CND Cymru), Ruban Heddwch Enfawr Cymru efo miloedd o enwau arni a baner arbennig CND Cymru yno i'w croesawu.

Mae holl ddatblygiad arfau niwcliar yn seiliedig ar "arbrofion". Mae'r Cyfamod Gwahardd Profion Rhannol, efo 118 o enwau arni yn gwahardd profion yn yr awyr. Fe gynhelir Cynhadledd Cadarnhau yn Efrog Newydd ym mis Ionawr 1991 ac fe geir cyfle yn y fan honno i wledydd y byd drawsnewid y Cyfamod Gwahardd Profion Rhannol i fod yn Gyfamod Gwahardd Profion Cyflawn. Bydd llywodraethau Amerig a Phrydain yn siwr o wrthwynebu'r newid yma ac ar yr un pryd ynysu eu hunain oddi wrth rhelyw y llofnodion. Y tebygrwydd yw na fedrwn ni eu perswadio i newid eu hagwedd, ond er hynny, mae'n bwysig fod y pwnc yma yn cael trafodaeth lawn a'n bod ni yn sicrhau cyn gymaint o lofnodion ac sy'n bosib ar betisiwn ryngwladol gafodd ei lansio gan 20 o wledydd ym mis Medi.

Gyrrwyd fersiwn o betisiwn CND Prydain i holl grwpiau CND Cymru.




*Rhodri Glyn Thomas yn Genefa — Awst 20*

# Pa bryd y gwnawn nhw ddysgu?

Sefydlodd y Llywodraeth Lafur 'Defence Sales Organisation' er mwyn hybu gwerthiant arfau dros y môr a "sicrhau nad yw'r wlad yma yn colli ei lle dyladwy yn y farchnad fasnachol werthfawr yma." (Hansard 25.1.66).

Chwarter canrif yn ddiweddarach defnyddiodd Denis Healey drafodaeth ar argyfwng y Gwlff, yn y Tŷ Cyffredin, i dynnu sylw at y problemau achoswyd gan y farchnad arfau a galw am reolaeth ryngwladol arni. (Hansard 6.9.90). Gofynnodd i'r Llywodraeth gymryd i fyny awgrym gan feirniad nodedig arall o allforion arfau, Eduard Shevardnadaze, Gweinidog Tramor y Sofietiaid.

Yn ôl adroddiadau'r wasg roedd na gwmwl du dros Sioe Awyr Farnborough eleni. Roedd y gwneuthurwyr awyrennau yn pendroni eu dyfodol milwrol wrth i'r Rhyfel Oer ddod i ben a thorri ar gyllid milwrol. Mewn ymdrech i ail gydio mewn peth o'r fasnach a gollwyd, cyfeiriwyd at argyfwng y Gwlff mewn rhai adroddiadau fel esgus i atgoffa gwledydd bychain eu bod yn agored iawn i ymosodiadau os na fedrent amddiffyn eu hunain. Anwybyddodd yr adroddiad y ffaith fod yr ymosodiad sydyn gan Iraq wedi bod yn rhannol bosibl am fod llawer o'r gwledydd oedd â chynrychiolaeth yn y Sioe wedi bod yn allforio arfau i Iraq.

Mae nifer o gwmnïau milwrol ar fin cyflawni archebion efo'r United Arab Emirates sydd yn debygol o fod yn werth tua £1 biliwn (Sunday Times 16.9.90) ac fe fydd hyn yn hwb arall i'r ras arfau gyfoes.

(Dyfynwyd o gylchlythyr Campaign Against Arms Trade, Hydref 1990.)




"MAE RHYWUN YN RYWLE'N GWYBOD RYWBETH 'DA NI DDIM!"

# CYNHADLEDD YN NULYN

## ar Fôr Iwerddon Di-Niwcliar

6 a 7 Hydref, 1990

Yr oedd aelodau o CND Iwerddon eisoes yn cynllunio'r penwythnos hon pan ddaethant i Gyfarfod Blynyddol CND Cymru yn Aberystwyth ym mis Ebrill.

'Doedd hi ddim yn syndod i ni gael croeso cynnes, Gwyddelig. Yr oedd cynrychiolwyr o'r Alban, Glannau Mersi ac o gwmpas Iwerddon, yn ogystal â Greenpeace ac deuddeg ohonom o Gymru, yn cynrychioli gwahanol grwpiau gwrth-niwcliar a heddwch.

Wrth agor y gynhadledd, dywedodd John de Courcy Ireland, Llywydd CND Iwerddon, fod Iwerddon yn falch o'i safle fel gwlad niwtral, ac na fydd yn fodlon nes bod terfyn ar lygredd niwcliar a gemau rhyfel niwcliar o gwmpas ei glannau.

Yr oedd y pwyslais yn ystod y deuddydd nesaf ar gyfnewid gwybodaeth a sefydlu rhwydweithiau ymgyrchu yn hytrach nag ar wrando ar areithiau.

Canolbwyntiodd un sesiwn ar berygl llongau tanfor ym Môr Iwerddon. Fel gwlad niwtral, nid yw Iwerddon yn caniatáu llongau pwer niwcliar neu longau sy'n cludo arfau niwcliar yn ei phorthladdoedd na'i dyfroedd.

Nid yw CND mor ddadleuol yn Iwerddon nag y mae ym Mhrydain, ac y mae'r prif bleidiau gwleidyddol, ar bapur o leiaf, yn gefnogol.

Un o ganlyniadau'r penwythnos fydd mwy o gyd-gysylltu rhwng grwpiau sy'n ymgyrchu ar fater llygredd niwcliar o Sellafield, gwaredu gwastraff niwclear ac ymarferion llongau tanfor niwcliar ym Môr Iwerddon.

Bydd ymgyrchoedd mawr ar yr holl faterion hyn yn cychwyn yn y gwanwyn, o ganlyniad i'r gynhadledd dra llwyddiannus hon.

Rhoda Jones

# GWRTHWYNEBIAD I RADAR TŶDDEWI YN U.D.A.

Tra'n bod wrthi yn ymgyrchu yn erbyn "atalfa niwclear" a gwallgofrwydd militaraidd arall, mae'n anorfod ein bod weithiau yn teimlo fod niferoedd mawr o bobl ledled y byd yn cytuno â ni ac yn gweithio dros heddwch.

Mae'r cynllun i godi CANOLFAN RADAR yn Nhŷddewi wedi codi gwrthwynebiad cryf ac eang yn Sir Benfro, ond mae'n galonogol medru dweud nad yw pawb yn U.D.A. y tu ôl i'r cynllun!

Eleni, roedd papurau newydd Cymreig yn yr Unol Daleithiau, "Ninnau" ac "Y Drych" wedi cynnwys erthyglau a llythyrau yn gwrthwynebu sefydlu'r radar ar yr un seiliau â phobl Cymru.

**"Yr ydych chi sy'n ddinasyddion o U.D.A. mewn sefyllfa gref iawn i wneud rhywbeth dros Gymru rwan. 'Does gan eich cefndryd Cymreig ddim llais yng Nghyngres U.D.A., ond mae gennych chi. Yr ydych oll yn etholwyr i aelodau o'r Gyngres. Medrwch ysgrifennu at eich dau Seneddwr ac at eich cynrychiolydd a gofyn iddyn nhw gadw Llynges U.D.A. rhag codi'r adeilad radar hwn.**

**Dyma'r amser iawn ; tydi'r adeiladu ddim wedi dechrau eto, ac y mae pwysau cryf i leihau gwariant y llywodraeth. Da chwi, ysgrifennwch ddau lythyr at eich aelod yn y Gyngres, a chadwch eich doleri treth rhag cael eu defnyddio i godi rhywbeth yng Nghymru y mae pobl Cymru yn ei wrthwynebu'n gryf."**

Carole Woods, Seattle, Washington.

**"Mae'r syniad yn chwerthinllyd. Rhoddodd awdurdodau milwrol yr Undeb Sofietaidd y gorau i godi safle radar debyg yn yr Wcrain pan wrthwynebodd dinasyddion am resymau iechyd."**

**'Does bosib y byddwn yn gosod ar y Cymry faich na fuasai'r Sofietiaid yn ei roi ar yr Wcraniaid."**

**"Ar ran Cymdeithas Gymraeg Delaware, a holl bobl o dras Cymreig yr Unol Daleithiau, hoffwn gael eich cefnogaeth i atal codi'r safle radar yng Nghanolfan Llynges U.D.A. ym Mreudeth, Gorllewin Cymru. Ysgrifenwch at eich Seneddwr a'ch Cyngreswyr i atal y gwastraff hwn ar arian y trethdalwyr a halogi rhan hyfryd o Gymru."**

Peter N. Williams, Ph.D.,
Newark, Delaware

Detholiadau o lythyrau i "Ninnau", Awst 1990.

# CANADA YN ERBYN HEDFAN ISEL

**Mae'n ymddangos fod y llywodraeth wedi gwrando ar y sawl sy'n gwrthwynebu hedfan isel yn yr Almaen, a does dim modd hedfan yn is na mil o droedfeddi yno bellach. Yng Nghymru, yr Alban a Cumbria fuo 'na ddim ymateb tebyg i'r holl wrthwynebu, dim ond ail-adrodd diddiwedd ar y ddadl fod angen y math hwn o hyfforddiant. Cafodd ei awgrymu yn fy nghlyw i y gellid cynnal yr ymarferiadau hyn yng Nghanada yn hytrach nag yng Nghymru. Pam lai? Wel, mae'r erthygl fer hon a anfonwyd atom o Ganada ar ddechrau Medi yn egluro pam, ac yn dangos i ni unwaith eto gymaint o angen sydd 'na i gyfnewid gwybodaeth a gweithio gyda'n gilydd er mwyn heddwch a dadfilitareiddio.**

Ym mis Mehefin eleni, bu dathliadau mawr ymysg ymgyrchwyr dros heddwch yng Nghanada, pan roddwyd y gorau i gynlluniau i ddarparu safle ymarfer hedfan yn isel newydd ar gyfer NATO yn Goose Bay, Labrador, ac un debyg yn Nhwrci.

Mae miloedd o bobl wedi gweithio'n galed i gefnogi'r Innu, trigolion cynhenid Gogledd Quebec a Labrador, yn eu hymgyrch yn erbyn yr hedfan isel sy'n bodoli'n barod a'r argymhelliad i godi safle hyfforddi newydd i NATO. Mae'r cynlluniau'n bygwth llawer o'r teuluoedd hyn a'u moddion cynhaliaeth, ac mi fyddai cynyddu'r nifer o ymarferiadau wedi bod yn drychineb.

Cafodd arolwg ar effeithiau'r cynllun ar yr amgylchedd a gomisiynwyd gan Adran Amddiffyn Cenedlaethol Canada ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 1989. Dychrynwyd Amgylcheddwyr ac Athrawon Gwyddoniaeth ac Ymchwil i Famaliaid gan y camgymeriadau, y bylchau a'r cyffredinoli yn y ddogfen anferth hon. Derbyniwyd llawer o argymhellion beirniadol pellach gan yr Adran cyn y dyddiad cau ym mis Chwefror. Canlyniad hyn oedd anfon dogfen yn amlinellu diffygion yr adroddiad i'r Adran Amddiffyn, dogfen yn gofyn am leihad yn nifer yr ymarferiadau tan y byddai'r adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi. Gwrthodwyd y cais, gan ddangos fan leiaf ddiffyg parch tuag at Banel Ymgynghori a benodwyd gan y llywodraeth ei hun.

Mae'r ymrafaelion cyfreithiol yn parhau, ond yn y cyfamser mae'r ymarferiadau hedfan isel o faes Goose Bay yn cael eu cynnal o hyd heb unrhyw gyfyngu arnyn nhw na diogelu pellach ar y cyhoedd.

Mae'r Adran Amddiffyn Cenedlaethol wedi cyhoeddi'n ddiweddar argymhellion ar gyfer coridoriau hyfforddi hedfan newydd yn British Columbia. Bydd y coridoriau hyn yn ymestyn ar draws tiroedd anferth i'r gogledd a'r gorllewin o'r Rocky Mountains. Mae 'na brotestio helaeth yn British Columbia, a hyd yn oed cyn i'r hedfan ddechrau, mae llenyddiaeth yn cael ei rannu i bobl Canada er mwyn eu gwneud nhw'n fwy ymwybodol o'r broblem. Yn ardaloedd yr Arctig bu gwrthwynebiad brwd i'r argymhellion, ond gan fod y boblogaeth ar wasgar, does dim cymaint o brotestio.

Yng Nghanada, yr hyfforddi hedfan isel hwn yw'r cynnydd mwya dramatig mewn gweithgaredd militaraidd ar hyn o bryd, a does gan y paneli a benodir gan y llywodraeth fawr o rym i'w rwystro na chyfyngu arno, fe ymddengys.

(Gillian Metcalf — Cymraes sy'n byw yng Nghanada ac sy'n aelod o'r 'Canadian Peace Alliance')



Swansea: Candle Floating.
Abertawe: Canhwyllau heddwch

Llun: Norman Burns

# DANCHWA MEWN FFATRI FEL LLANISHEN

Ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a roddwyd ar y cyfryngau i'r danchwa wenwynig ddaeth o Orsaf Atomig yn yr Undeb Sofietaidd. Dywedir wrthym mai metel ysgafn yw beriliwm sy'n llosig'n hawdd gan ollwng i'r awyr nwy ocseid beriliwm marwol yn y broses. Gall dod i gysylltiad â'r nwy hwn achosi diffygion difrifol yn yr ysgyfaint, yr iau a'r arennau.

Wrth ysgrifennu hyn, sylweddolaf nad oes raid mynd i'r Gwlff neu Irac ei hun i gael ein gwenwyno â nwy. Cafodd pobl yr Undeb Sofietaidd yr un effaith yn amgylchfyd eu cartrefi. A'r rheswm dros gynhyrchu'r stwff marwol hwn? I atgyfnerthu ffrwydriadau arfau niwcliar!

Mae gennym ffatri cynhyrchu beriliwm yma yng Nghymru: nid yw'r Sefydliad Arfau Niwcliar ond rhyw ddwy filltir o ganol dinas Caerdydd. Gyrrir y beriliwm a gynhyrchir yno wedyn i Aldermaston i'w ddefnyddio ar gyfer gorchudd pellegrau-arfogi Trident. Dros y ffordd i'r sefydliad ymddangosiadol ddiniwed hwn mae rhesi tai hanner-cyswllt a'u gerddi tlws. Ymddengys popeth mor normal.

Bu ymgyrchwyr dros heddwch yn protestio y tu allan i Lanishen am flynyddoedd. Parod yw'r pwerau sy'n bod â'u hen ddadleuon arferol. Gallai pethau fel hyn ddigwydd yn yr Undeb Sofietaidd ond byth yma. Maent wedi rhuthro'n barod i gysuro'r cyhoedd fod popeth yn iawn yn Llanishen.

Mae'n ffaith mai unwedd yw Gwladwriaethau Atomig led-led y bydd. Cyfrinachgar, pengaled a hyderus iawn o'r grym mawr sydd ganddynt. Cawn weld. Mae pobl gyffredin hefyd yn dod yn ymwybodol o'u grym mawr. Ond iddynt sylweddoli eu potensial ac uno, gallant symud mynyddoedd. Mae gennym dystiolaeth o hyn yn ystod y flwyddyn aeth heibio yn Nwyrain Ewrob.

Fel canlyniad i'r protest gyhoeddus, cyhoeddodd Moscow eisoes ei bod am gau'r llecyn arbrofi yn Semipalatinsk i lawr ym 1993. Fe'i symudir i ynys bellenig yn yr Arctig i'r gogledd o'r arfordir Sofietaidd. Er mawr drallod iddynt, gŵyr pobl Norwy'n iawn am anfadwaith arbrofion niwcliar a chan nad ydynt ond 500 milltir i ffwrdd oddi wrth yr ynys 'bellenig', pan ddaw 1993, byddant yn disgwyl.

Rowena Thomas

# DEWISWCH YMGYRCH!

Mae cynlluniau ar gyfer Ymgyrchoedd Unigolion CND wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer pobl sydd, er bod eu hamser yn brin, yn awyddus i wneud mwy dros heddwch. MAE'R CYNLLUNIAU I GYD YN RHAD AC AM DDIM (ar wahan i'r taflenni). Efallai bod un ar gael ar eich cyfer chwi?

### CRIW'R WASG CND CYMRU

Ond i chwi ymrwymo i geisio ysgrifennu rhyw ddwywaith y flwyddyn i'ch papur lleol ar gyfer CND Cymru, fe gewch fwletin ganddo'n awgrymu testun addas a chefndir o wybodaeth i'r cyfryw.

### 20 MUNUD

Mae'r bobl yma'n ysgrifennu nodiadau byrion at eu AS — rhai nas cymer ond rhyw 20 munud i'w cyfansoddi. Gyrrwn ni gardiau-post yn rheolaidd i awgrymu testunau ar gyfer y cyfryw.

### STICERI CEIR

Beth am roi sticer CND Cymru ar eich car? Anfonwn un yn rhad ac am ddim i chwi.

### RHWYDWAITH GWEITHREDU AR GYFER YMGEISWYR

Gall Etholiad Cyffredinol ddigwydd ym 1991! Rydym ni'n awyddus i ddarpar-ymgeiswyr dderbyn llythyrau ar faterion 'heddwch' cyn iddynt galedu i batrwm. A hoffech chi ymuno â rhwydwaith o bobl sy'n ymgymryd ag ysgrifennu'r math yma o lythyrau. Rydym yn addo peidio gofyn i chi yrru gormod a byr iawn ac i bwrpas fydd ein ymgynghoriadau ni.

### TAFLENNI

A fuasech chi'n hoffi dosbarthu 100 o daflenni mewn stryd yn eich hymyl dair gwaith y flwyddyn yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref? Os hynny, fe allwn eu gyrru i chwi — er yn anffodus, rhaid inni godi £4 y flwyddyn i weithredu'r cynllun hwn.

Os oes diddordeb gennych yn unrhyw un o'r cynlluniau uchod, gyrrwch eich enw a'ch cyfeiriad i Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, gan nodi pa un/rai.

## *Dyddiadur*

**Tachwedd 24:**
Gwrthdystiad yn erbyn rhyfel yn y Gwlff, ymgasglu ar yr Embankment, 11.00am.
**Rhagfyr 1:**
Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhaeadr. Cynllunio ymgyrchoedd y flwyddyn i ddod.
**Chwefror 2:**
Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhaeadr.
**Chwefror 23:**
Gŵyl Cymru Ddi-Niwcliar, Casnewydd, Gwent.

## NEWYDDION

Fe drafodwyd yr arian y gellir ei arbed o'r gwariant ar arfau yng nghynadleddau y Blaid Werdd, y Rhyddfrydwyr, Plaid Cymru a Llafur. Mae cyhoeddiad diweddar CND "The Peace Dividend in the 1990s" yn ddadansoddiad manwl o'r pynciau trafod: ar gael oddi wrth CND, 162 Holloway Rd., London N); £2.

Mae'r gohiriad o gynllun Radar Tŷ Ddewi tan o leia 1992 i'w wneud ag arbed arian gan yr UDA; ond ddaru Parc lwyddo i leisio gwrthwynebiad croesdoriad eang o'r cyhoedd; bydd CND yn siwr o gefnogi Parc os yw'r pwnc yn codi eto.

Mae Tom King, Ysgrifennydd Amddiffyn, wedi gwrthod derbyn casgliadau'r Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn ar hedfan isel. Bydd cardiau gwrthwynebu yn cael eu dosbarthu gan Bob Cole yn y flwyddyn newydd. Mae taflenni CND ar hedfan isel ar gael o hyd. Bydd Cyngor ar Ragfyr 1af yn cynllunio'r ymgyrch; mae'r cyfarfod ar agor i bob aelod — dowch yn llu.

Mae Stephen Hancock a Mike Hutchinson wedi cael eu carcharu am 15 mis am ddiarfogi awyren bomio F111 yn Upper Heyford, safle llu awyr yr UDA. Cewch anfon cardiau Nadolig iddynt trwy 155 Annitt Rd., Northampton, NN1 4NH.

## ANGEN ARIAN AR GRWPIAU LLEOL

Yn ein ardal ni mae yna nifer go lew o bobol sy'n aelodau o CND Cymru yn genedlaethol, ond heb ymaelodi â'r gangen leol. Rydan ni'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw am y digwyddiadau lleol ac mae rhai yn ymuno yn y gweithgareddau.

Fe fyddem ni'n falch fodd bynnag pe tae nhw'n cyfrannu'n ariannol i'r gangen leol yn uniongyrchol neu drwy CND Cymru. Diau fel aelodau cenedlaethol eu bod nhw'n teimlo'u bod yn cyfrannu ac na allwn ddisgwyl iddyn nhw dalu tâl aelodaeth y gangen leol. Ond rydan ni'n teimlo fod yna amwysedd yn y fan yma a byddem yn falch pe bae'r mater yn cael ei setlo.

*Douglas Smith, Cadeirydd,*
*CND Y Trallwng.*

## FFURFLEN AELOD
## MEMBERSHIP FOR

Enw/Name ....................................

Cyfeiriad/Address ............................

Sir/County ....................................

**Tâl Aelodaeth/Membership:**
Oedolyn/Adult £9; Cwpl/Couple £12
Myfyriwr, Ieuenctid, Heb waith a phensiynw
Student, Youth, Unwaged and Pensioners —

*Gwneler sieciau'n daladwy a danf*
CND CYMRU, BRYN ELLTYD, T
GWYN

*ymgyrch* Cymru
Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Danfonwch lythyrau, erthyglau, lluniau, cartwnau at y golygydd: Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4LS, erbyn Ionawr 1af, 1991.
Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru yw Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Ffôn 0766 831356).
Argraffwyd YMGYRCH CYMRU ar bapur wedi'i ailbrosesu gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
HYSBYSEBION: £15 1/8 tudalen, £25 ¼ tudalen, £50 ½ tudalen — i Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS (076 676 2739).

TE PRINTING SERVICE...
★ COLOUR PRINTING
★ GENERAL PRINTING
★ LAYOUT & DESIGN SERVICE
★ BROCHURES, LEAFLETS,
★ LETTERHEADS, BUSINESS CARDS
Etail, Bethel
ernarfon,
d LL55 1UW.
EL OR FAX
RTDINORWIC
248) 671196

# PICK YOUR OWN CAMPAIGN!

CND's Individual Campaigning schemes are specially designed for people who have not much time, but would still like to do something more for peace. ALL THE SCHEMES ARE FREE (except the leaflets). Perhaps one will suit you?

**CND CYMRU PRESS GANG**
You promise CND Cymru that you will try to write to your local paper twice a year. In return CND will send you a bulletin which suggests the topic you could write about and provides background information.

**20-MINUTERS**
These people write short notes to their MPs, notes which should only take 20 minutes to compose. We send regular postcards suggesting the topics for these notes.

**CAR STICKERS**
Why not put a CND Cymru sticker on your car? We will send you a free one.

**CANDIDATES ACTION NETWORK**
The next General Election could be in 1991! We want to make sure that prospective candidates receive letters on 'peace' issues before they become too set in their ways. Join a network of people writing these letters! We promise not to ask you to send too many and our briefings will be short!

**LEAFLETEERS**
Would you like to give out 100 leaflets in a street near you three times a year, Spring, Summer and Autumn? We will send them to you if you would. Unfortunately we have to charge £4 a year for this scheme.

If you are interested in any of the above schemes please send your name and address to Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, and indicate which one(s).

## Diary

**November 24:**
London Demo against War in the Gulf, assemble Embankment 11.00am.
**December 1:**
Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhayadr. Planning next year's campaign.
**February 2:**
Cyngor CND Cymru, Brynafon.
**February 23:**
Nuclear Free Wales Festival, Newport, Gwent.



**FOR THE COMPLETE PRINTING SERVICE...**

eryri
argraffwyr - printers

WE CAN SUPPLY YOU WITH EVERYTHING YOU NEED IN DESIGN AND PRINTING TO THE HIGHEST QUALITY.

ALL PRICES TO SUIT YOUR BUDGET

★ COLOUR PRINTING
★ GENERAL PRINTING
★ LAYOUT & DESIGN SERVICE
★ BROCHURES, LEAFLETS,
★ LETTERHEADS, BUSINESS CARDS

**Hen Efail, Bethel
Caernarfon,
Gwynedd LL55 1UW.**

TEL OR FAX
PORTDINORWIC
(0248) 671196

## STOP PRESS

The Green, Liberal, Plaid Cymru and Labour conferences all discussed the 'Peace Dividend', i.e. defence cuts, arms convension and disarmament. CND's recent publication "The Peace Dividend in the 1990s" is a detailed analysis of the issues, which should be widely discussed. Available from CND, 162 Holloway Rd., London N); £2.

The postponement of the St. David's Radar scheme until at least 1992 is surely a money-saving exercise by the US, but Parc mobilised wide oposition; well done Parc, CND will be right behind you if the threat returns.

Defence secretary Tom King overruled the All Party Defence Select Committee on low flying. Bilingual "complaints" cards will be distributed by Bob Cole in the New Year. CND Cymru low flying leaflets are still available. It is up to us to make him regret his high handed decision. Cyngor on December 1st will plan the campaign — the meeting is open to all members, please come along.

Stephen Hancock and Mike Hutchinson have been imprisoned for 15 months for disarming a nuclear capable F111 bomber at USAF Upper Heyford. Christmas cards will reach them if sent c/o 155 Annitt Rd., Northampton, NN1 4NH.

## LOCAL GROUPS NEED FUNDS

In our area, we have quite a number of members of CND Cymru nationally, but they do not belong to the local branch. We keep them advised of local activities and some of them take part in local events. We should be pleased, however, if they contributed to local branch finances either directly or through CND Cymru. As national members they probably feel they are paying their way and we could not expect them to pay the full branch membership sub., but we feel there is an anomaly here which we should like sorted out.

*Douglas Smith, Chairman, Welshpool CND.*

---

# DEWISWCH YMGYRCH!

Mae cynlluniau ar gyfer Ymgyrchoedd Unigolion CND wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer pobl sydd, er bod eu hamser yn brin, yn awyddus i wneud mwy dros heddwch. MAE'R CYNLLUNIAU I GYD YN RHAD AC AM DDIM (ar wahan i'r taflenni). Efallai bod un ar gael ar eich cyfer chwi?

**CRIW'R WASG CND CYMRU**
Ond i chwi ymrwymo i geisio ysgrifennu rhyw ddwywaith y flwyddyn i'ch papur lleol ar gyfer CND Cymru, fe gewch fwletin ganddo'n awgrymu testun addas a chefndir o wybodaeth i'r cyfryw.

**20 MUNUD**
Mae'r bobl yma'n ysgrifennu nodiadau byrion at eu AS — rhai nas cymer ond rhyw 20 munud i'w cyfansoddi. Gyrrwn ni gardiau-post yn rheolaidd i awgrymu testunau ar gyfer y cyfryw.

**STICERI CEIR**
Beth am roi sticer CND Cymru ar eich car? Anfonwn un yn rhad ac am ddim i chwi.

**RHWYDWAITH GWEITHREDU AR GYFER YMGEISWYR**
Gall Etholiad Cyffredinol ddigwydd ym 1991! Rydym ni'n awyddus i ddarpar-ymgeiswyr dderbyn llythyrau ar faterion 'heddwch' cyn iddynt galedu i batrwm. A hoffech chi ymuno â rhwydwaith o bobl sy'n ymgymryd ag ysgrifennu'r math yma o lythyrau. Rydym yn addo peidio gofyn i chi yrru gormod a byr iawn ac i bwrpas fydd ein ymgynghoriadau ni.

**TAFLENNI**
A fuasech chi'n hoffi dosbarthu 100 o daflenni mewn stryd yn eich hymyl dair gwaith y flwyddyn yn y gwanwyn, yr haf a'r hydref? Os hynny, fe allwn eu gyrru i chwi — er yn anffodus, rhaid inni godi £4 y flwyddyn i weithredu'r cynllun hwn.

Os oes diddordeb gennych yn unrhyw un o'r cynlluniau uchod, gyrrwch eich enw a'ch cyfeiriad i Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, gan nodi pa un/rai.

## Dyddiadur

Tachwedd 24:
Gwrthdystiad yn erbyn rhyfel yn y Gwlff, ymgasglu ar yr Embankment, 11.00am.
Rhagfyr 1:
Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhaeadr. Cynllunio ymgyrchoedd y flwyddyn i ddod.
Chwefror 2:
Cyngor CND Cymru, Brynafon, Rhaeadr.
Chwefror 23:
Gŵyl Cymru Ddi-Niwcliar, Casnewydd, Gwent.

## NEWYDDION

Fe drafodwyd yr arian y gellir ei arbed o'r gwariant ar arfau yng nghynadleddau y Blaid Werdd, y Rhyddfrydwyr, Plaid Cymru a Llafur. Mae cyhoeddiad diweddar CND "The Peace Dividend in the 1990s" yn ddadansoddiad manwl o'r pynciau trafod: ar gael oddi wrth CND, 162 Holloway Rd., London N); £2.

Mae'r gohiriad o gynllun Radar Tŷ Ddewi tan o leia 1992 i'w wneud ag arbed arian gan yr UDA; ond ddaru Parc lwyddo i leisio gwrthwynebiad croesdoriad eang o'r cyhoedd; bydd CND yn siwr o gefnogi Parc os yw'r pwnc yn codi eto.

Mae Tom King, Ysgrifennydd Amddiffyn, wedi gwrthod derbyn casgliadau'r Pwyllgor Dethol ar Amddiffyn ar hedfan isel. Bydd cardiau gwrthwynebu yn cael eu dosbarthu gan Bob Cole yn y flwyddyn newydd. Mae taflenni CND ar hedfan isel ar gael o hyd. Bydd Cyngor ar Ragfyr 1af yn cynllunio'r ymgyrch; mae'r cyfarfod ar agor i bob aelod — dowch yn llu.

Mae Stephen Hancock a Mike Hutchinson wedi cael eu carcharu am 15 mis am ddiarfogi awyren bomio F111 yn Upper Heyford, safle llu awyr yr UDA. Cewch anfon cardiau Nadolig iddynt trwy 155 Annitt Rd., Northampton, NN1 4NH.

*ymgyrch* Cymru
Cyhoeddwyd gan CND Cymru. Danfonwch lythyrau, erthyglau, lluniau, cartwnau at y golygydd: Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4LS, erbyn Ionawr 1af, 1991.
Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru yw Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3TW (Ffôn 0766 831356).
Argraffwyd YMGYRCH CYMRU ar bapur wedi'i ailbrosesu gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.
HYSBYSEBION: £15 1/8 tudalen, £25 ¼ tudalen, £50 ½ tudalen — i Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS (076 676 2739).

## ANGEN ARIAN AR GRWPIAU LLEOL

Yn ein ardal ni mae yna nifer go lew o bobol sy'n aelodau o CND Cymru yn genedlaethol, ond heb ymaelodi â'r gangen leol. Rydan ni'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw am y digwyddiadau lleol ac mae rhai yn ymuno yn y gweithgareddau.

Fe fyddem ni'n falch fodd bynnag pe tae nhw'n cyfrannu'n ariannol i'r gangen leol yn uniongyrchol neu drwy CND Cymru. Diau fel aelodau cenedlaethol eu bod nhw'n teimlo'u bod yn cyfrannu ac na allwn ddisgwyl iddyn nhw dalu tâl aelodaeth y gangen leol. Ond rydan ni'n teimlo fod yna amwysedd yn y fan yma a byddem yn falch pe bae'r mater yn cael ei setlo.

*Douglas Smith, Cadeirydd, CND Y Trallwng.*

**FFURFLEN AELODAETH I'CH FFRINDIAU
MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS**

Enw/Name ............................................ Llythrennau Bras/Capital letters
Cyfeiriad/Address ............................................
Sir/County .................................... Côd Post/Postcode ....................................

Tâl Aelodaeth/Membership:
Oedolyn/Adult £9; Cwpl/Couple £12
Myfyriwr, Ieuenctid, Heb waith a phensiynwyr/ Student, Youth, Unwaged and Pensioners — £3

Dymunaf gyflwyno rhodd/ I wish to make a donation £.........
Am aelodaeth amgaeaf/ For membership I enclose £.........

*Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i — Make cheques payable and send to*
CND CYMRU, BRYN ELLTYD, TANYGRISIAU, BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD LL41 3TW